Iolo Morganwg

Pwy oedd Iolo Morganwg? Bardd, hybwr derwyddiaeth, llenor mewn dwy iaith, chwedleuwr rhamantaidd, radical gwleidyddol, arloeswr crefyddol, gwrthwynebydd caethwasanaeth, copïydd llawysgrifau, hynafiaethydd, adeiladwr cenedl, a ffugiwr a daflodd lwch i lygaid cenedlaethau o ysgolheigion...

Byddai'n rhwydd parhau i restru'r hyn a gyflawnodd y gŵr hynod hwn o Drefflemin. Ond er mwyn creu'r daflen hon, daeth criw o drigolion Bro Morgannwg ynghyd i ymchwilio i hanes Iolo gan ofyn beth y mae yn ei olygu i ni heddiw. O feddwl am yrfa ryfedd a rhyfeddol Iolo, pa themâu sy'n siarad â ni yn yr unfed ganrif ar hugain?

IAITH

Go brin y gwnaeth unrhyw Gymro neu Gymraes ddefnydd mor greadigol o'r Gymraeg ag Iolo. Ond un o'r ffeithiau a'n trawodd fwyaf oedd mai Saesneg oedd mamiaith Iolo. Dysgodd y Gymraeg yn fachgen bach yn Nhrefflemin, ardal drwyadl Gymraeg bryd hynny. Aeth wedyn yn ei flaen i lunio peth o'r farddoniaeth hyfrytaf yn y Gymraeg, gan gynnwys cerddi a efelychai arddull beirdd mawr yr Oesoedd Canol. Roedd mor llwyddiannus wrth wneud hynny fel y credid am bron canrif mai Dafydd ap Gwilym ei hun, bardd mwyaf y bedwaredd ganrif ddeg, a'u lluniodd! Felly mae gyrfa Iolo yn dangos y gall y Gymraeg fod ar gael i bawb. Nid pryd a sut yr ydym yn ei dysgu sy'n bwysig, ond beth yr ydym yn ei wneud â hi.

BRO

Yr oedd Iolo yn awyddus i ddysgu'r byd am fawredd Cymru a rhoi statws a sefydliadau newydd iddi. Ond wrth wneud hynny, dechreuodd wrth ei draed gyda diwylliant gwerin Morgannwg. Dathlodd ei thafodiaith, ei dywediadau, ei barddoniaeth a'i chaneuon. Mynnai Iolo adfer bri Morgannwg a Chymru fel ei gilydd, gan sefyll dros ei fro a'i wlad yn wyneb unrhyw un a'u diraddiai. Roedd yn genedlaetholwr, ond cariad at ei fro ac ardal ei fagwraeth a oedd yn ei ysbrydoli yn fwy na dim. Er iddo dreulio gryn amser yng nghylchoedd llenyddol Llundain, diwylliant gwerin ei fro oedd agosaf at ei galon, ac ni fynnai fyth ei fychanu.

Iolo Morganwg (Edward Williams), 1747–1826. Fe'i ganed ym Mhennon, Llancarfan, a'i fagu yn Nhrefflemin. Yno y bu farw yn 1826, ac yno hefyd y claddwyd ef. Saer maen ydoedd wrth ei alwedigaeth, ond bu hefyd yn ffermwr ac yn siopwr; treuliodd gyfnod yng ngharchar Caerdydd o ganlyniad i'w amrywiol ddyledion. Ond fe'i cofir yn bennaf am ei gyfraniad i iaith a diwylliant Cymru, ac am sefydlu Gorsedd y Beirdd mewn cyfnod pan nad oedd gan Gymru unrhyw sefydliadau cenedlaethol o bwys.

Darparwyd gan Llyfrgell Genedlaethol Cymru / National Library of Wales

COF

Un o'r pethau pwysicaf i Iolo oedd sicrhau na fyddai hanes ei fro a'i genedl yn mynd yn angof. Llwyddodd i greu darlun byw a chofiadwy o hanes ei wlad, ac mae'r cof amdano ef ei hun yn dal yn gryf. Ond tybed a yw'r cof am hanes yr iaith Gymraeg yn y Fro cyn gryfed? Mae'r hanes hwnnw yn un cyfnewidiol a chyffrous. Gwanhawyd y Gymraeg yn ddirfawr gan oresgyniadau'r Normaniaid yn yr Oesoedd Canol, ond yn y Cyfnod Modern cynnar ailfeddiannodd y Gymraeg rannau helaeth o'r Fro—rhywbeth na wyddem lawer amdano cyn dechrau ymchwilio. Yn wir, sylwodd Iolo ar hyn yn digwydd yn ystod ei oes, wrth i rannau o'r Fro a fu yn Saesneg eu hiaith yn ei blentyndod droi yn gynyddol Gymraeg. Ond yn ail hanner y 19g. aeth y Gymraeg ar drai unwaith eto. Eto i gyd, wrth edrych ar gyfrifiadau 1891, 1901 a 1911 gwelsom fod y Gymraeg yn dal ar lafar yn Nhrefflemin a Llancarfan a rhannau eraill o gynefin Iolo ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Erbyn heddiw, gallwn gyfeirio hefyd at dwf cynyddol addysg Gymraeg yn yr un ardaloedd. Ond tybed a ydym ni yn y Fro yn gwybod digon am yr etifeddiaeth ieithyddol gyfoethog sydd yn rhan greiddiol o'n hanes?

'Y mae pawb sy'n gwybod rhywbeth am lên Cymru yn gwybod rhywbeth am Iolo Morganwg. Dyna'r drafferth: trwy ei gymryd yn ganiataol collwn olwg ar ei ryfeddod.'

Hywel Teifi Edwards

DYFODOL

Roedd gan Iolo, a'i galwai'i hun yn 'Fardd Rhyddid', weledigaeth bendant am ddyfodol Cymru, ac am le'r Gymraeg a'i diwylliant yn y dyfodol hwnnw. Gweithiodd yn ddiflino i newid agweddau cymdeithas ym mhob math o feysydd, gan gynnwys y Gymraeg, crefydd a chaethwasanaeth. Gallwn gytuno neu anghytuno â rhai o'i syniadau, ond heb amheuaeth roedd ganddo'r hyder i gyhoeddi 'Y gwir yn erbyn y byd'. O safbwynt heddiw, wrth gwrs, gallwn ddweud fod ei berthynas â'r 'gwir' yn un gymhleth. Ond mae'r hyder a ddangosodd y gŵr tlawd hwn yn nyfodol ei wlad a'i iaith yn rhywbeth safadwy.

'Dawon, lwys afon, y sydd
Yn gwenu'n deg i'w gweunydd,
Afon i fardd, hardd yw hi,
Rhag eraill yn rhagori.'

Canmol afon Ddawan, o gywydd 'Y Draenllwyn'.

'Unigryw'.

Ai dyma'r gair gorau i ddisgrifio Iolo?
Efallai wir.
Ac mae'n air addas iawn hefyd —
Iolo Morganwg ei hun a'i bathodd.

I DDYSGU RHAGOR AM IOLO MORGANWG

Gwefan prosiect 'Iolo Morganwg a'r Traddodiad Rhamantaidd yng Nghymru':
www.iolomorganwg.cymru.ac.uk

Llwybr Bro Iolo Morganwg
ar wefan Cyngor Bro Morgannwg:
www.valeofglamorgan.gov.uk

MENTER IAITH BRO MORGANNWG
heritage treftadaeth
LOTTERY FUNDED
ARIENNIR GAN Y LOTERI